

Dyddiad cyhoeddi: 29 Hydref 2020

Cais Rhyddid Gwybodaeth

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch Cais Rhyddid Gwybodaeth. Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth.

Gofynnwch am y wybodaeth ganlynol:

- Ers cynnal gwasanaethau mwy cyfyngedig yn sgil y cyfyngiadau symud, faint o'ch cerbydau y mae Trafnidiaeth Cymru wedi'u huwchraddio a'u hatgyweirio?

Ar ôl adolygu'ch cwestiynau, gallwn ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

Mae fflyd trenau TrC wedi gweld llai o ddefnydd yn sgil y gwasanaeth COVID-19 cyfyngedig. Mae'r pandemig wedi gweld sawl her yn ein depos cynnal a chadw am y rhesymau canlynol:

- Cynnydd mewn absenoldeb staff yn sgil hunanynysu a salwch
- Cyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol ar y depos
- Gofynion glanhau cynyddol
- Oedi sylweddol mewn cadwyni cyflenwi yn cyfyngu ar y cydrannau wrth gefn sydd ar gael
- Oedi cyn cyflwyno fflydoedd newydd yn parhau i lyncu amser staff technegol.

Er hynny ac er gwaethaf heriau tebyg sy'n wynebu ein cyflenwyr, rydym wedi gallu parhau gyda phob rhaglen wella ac wedi cyflawni gwaith ychwanegol ar rai unedau penodol. Mae rhywfaint o'n prif raglen waith wedi parhau i gael ei chyflawni fel a ganlyn:-

- Cwblhau gwaith hygyrchedd anabled PRM ar ein fflyd dosbarth 150 (36 uned)
- Cwblhau gwaith hygyrchedd anabled PRM ar ein 13x dosbarth 153 sydd i aros yn y fflyd yn yr hirdymor
- Cwblhau'r gwaith o osod Diogelwch rhag Llithro ar Olwynion ar y fflyd dosbarth 150 i wella eu cadernid gydol y cyfnod lle mae dail yn disgyn ar y cledrau.
- Parhau i adnewyddu ein fflyd pellter hir dosbarth 150 (14 o 27 uned wedi'u cwblhau bellach)
- Gorffen ailbeintio allanol ein fflyd dosbarth 158 a dechrau adnewyddu y tu mewn i'r trenau (7 o 24 uned wedi'u cwblhau)
- Cwblhau 8 allan o 9 uned dosbarth 769 a fydd yn cael eu defnyddio yn ddiweddarach eleni ar ôl cwblhau hyfforddiant gyrwyr i gymryd lle ein trenau Pacer
- Darparu 2 allan o 5 uned dosbarth 230 ar gyfer llwybr Wrecsam - Bidston, gyda'r 3 arall i ddilyn erbyn diwedd y flwyddyn i gael eu defnyddio'r flwyddyn nesaf
- Cwblhau gwaith addasu ein 3x set Mark 4 er mwyn gallu eu defnyddio yn gynnar y flwyddyn nesaf ar ôl cwblhau hyfforddiant gyrwyr.

Gobeithio bod y wybodaeth hon o fudd i chi.

Yn gywir,

Trafnidiaeth Cymru